
# PECYN SWYDD PENNAETH
# YSGOL BRYNREFAIL



**UCHELGAIS** / AMBITION **PARCH** / RESPECT **DYCNWCH** / RESILIENCE

Annwyl Ddarpar Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn ein swydd fel Pennaeth yn Ysgol Brynrefail.

Mae corff llywodraethu Ysgol Brynrefail yn awyddus i benodi arweinydd ysbrydoledig a gweledigaethol, gyda nod cadarnhaol ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Rydym yn awyddus i barhau i gynnig cwricwlwm eang a diddorol i'n disgyblion sy'n helpu i ehangu eu gorwelion a chodi dyheadau, yn unol â nodau ac egwyddorion yr ysgol a'r Sir.

Mae'r Pennaeth presennol a'r Pennaeth Mewn Gofal wedi gwneud gwaith rhagorol ac rydym yn ddiolchgar iddynt am eu hymdrechion, mae hwn yn gyfle cyffrous i adeiladu ar y sylfaen hon er mwyn gwella bywyd yr ysgol a chefnogi disgyblion, staff a'r gymuned leol.

Rydym yn gobeithio y bydd y Pennaeth newydd yn cydnabod ein cymunedau cyffrous, bywiog ac yn mwynhau'r heriau o weithio yn yr ysgol eithriadol hon.

Yn ein hysgol fe welwch staff ymroddedig, arweinyddiaeth gref, plant sy'n awyddus i ddysgu a llawer o rieni a gofalwyr sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi eu hysgol. Bydd gofyn i chi ysbrydoli hyder ac adeiladu dyhead yn yr ysgol, er lles disgyblion a staff.

Mae'r corf llywodraethu wedi ymrwymo i gydweithio ac yn awyddus i benodi Pennaeth brwdfrydig ac uchelgeisiol i arwain yr ysgol drwy'r bennod nesaf.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ddatblygu dyfodol yr ysgol a'i ddisgyblion.

Diolch i chi unwaith eto am eich diddordeb yn y swydd.
Os ydych yn awyddus i ymuno gyda ni bydd angen cyflwyno cais erbyn hanner dydd, dydd Mercher, Mawrth 26ain, 2025.

Tom Hastings
Cadeirydd y Llywodraethwyr

YSGOL BRYNREFAIL

**'Gyda'n gilydd am y copa'**

## HYSBYSEB SWYDD: PENNAETH

**Yn eisiau: ar gyfer 1af Fedi 2025**

Grŵp Ysgol: 6
Pwyntiau Cyflog: L25 - L31
Cyflog: £91,401 - £105,862

Mae Ysgol Brynrefail, Llanrug yn anelu at gyflwyno addysg o'r ansawdd gorau ac i ragori ymhob agwedd o'i gweithgareddau. Hyrwyddir rhaglen addysg ddwyieithog ac mae ethos a gweinyddiad yr ysgol yn adlewyrchu hynny.

Disgwylir i'r ymgeisydd ar gyfer y swydd hon fod:

- yn gwbl ymrwymedig i addysg ddwyieithog gyflawn.
- yn raddedig ac yn meddu ar y cymhwyster CPCP (NPQH) neu'r profiad perthnasol fel Pennaeth i gyflawni dyletswyddau'r swydd.
- yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o holl ofynion y cwricwlwm uwchradd.
- yn gallu arwain a chynllunio dyfodol yr ysgol.
- yn gallu arwain a rheoli ysgol wâr a disgybledig.

Gellir cael manylion pellach a/neu sgwrs anffurfiol am y swydd drwy gysylltu â Mr Gwyn Tudur, Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd, Cyngor Gwynedd ar (01286 679958), neu ebost GwynTudur@gwynedd.llyw.cymru.

Mae'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn angenrheidiol ar gyfer y swydd hon. Mae'r ysgol yn gweithredu'n unol a'i Bolisi Iaith. Bydd angen i'r ymgeisydd gyrraedd y lefel ieithyddol sy'n cael ei nodi yn y Manylion Person.

Rydym yn annog pob ymgeisydd am swydd gyda'r Cyngor i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg neu yn ddwyieithog. *(Bydd ceisiadau sydd yn cael eu cyflwyno yn uniaith Gymraeg neu Saesneg yn cael eu trin yn gwbl gyfartal, ond gofynnir i'r ymgeisydd ystyried yn ofalus beth yw gofynion iaith y swydd a'r sefydliad ac a fyddai cyflwyno cais yn uniaith Gymraeg yn fwy addas).*

**Gofynnir i'r rhai sydd â diddordeb lenwi ffurflen gais sydd ar wefan Cyngor Gwynedd erbyn hanner dydd, dydd Mercher, 26ain o Fawrth, 2025.**

Bydd y Cyngor yn gofyn am ddadleniad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chadarnhad o gofrestriad gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus cyn y gallent gychwyn yn yr Ysgol.

Mae'r awdurdod hwn wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl y bydd pob un o'i staff a'i wirfoddolwr yn rhannu'r ymrwymiad hwn.

**This is an advertisement for a Head teacher at Ysgol Brynrefail, Llanrug for which the ability to communicate through the medium of Welsh and English is essential.**

The Council will require a Disclosure and Barring Service disclosure and confirmation of registration with the Education Workforce Council for the successful applicant before they can start at the school.

This authority is committed to safeguarding and promoting the welfare of children and young people and expects all staff and volunteers to share this commitment.

YSGOL BRYNREFAIL

'Gyda'n gilydd am y copa'

# SWYDD DDISGRIFIAD: PENNAETH

## PWRPAS Y SWYDD

- Sicrhau bod plant a phobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Darparu arweinyddiaeth gorfforaethol a rheolaeth broffesiynol ar gyfer yr ysgol.
- Sicrhau gwelliant parhaus a llwyddiant i'r ysgol yn sgil cyfleoedd dysgu ac addysgu o safon uchel i'r holl ddisgyblion a safonau cyrhaeddiad uchel ym mhob agwedd o waith yr ysgol.
- Creu amgylchedd dysgu cyffrous, ysgogol, chynhyrchiol a diogel ar gyfer y disgyblion a'r staff.
- Mae'r ysgol hon wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl y bydd pob un o'i staff a'i wirfoddolwr yn rhannu'r ymrwymiad hwn.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

## Amodau

Mae gofynion y swydd hon i'w cyflawni yn unol â darpariaethau Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac o fewn amrediad dyletswyddau athrawon fel y'u nodir yn y ddogfen honno. Mae'r swydd hefyd yn ddarostyngedig i Amodau Gwaith Athrawon Ysgol yng Nghymru a Lloegr (Y Llyfr Bwrgwyn) ac i unrhyw amodau perthnasol a gytunwyd yn lleol.

Rhaid i ddyletswyddau proffesiynol pennaeth yr ysgol hon gael eu cyflawni yn unol â'r darpariaethau'r Deddfau Addysg, Gorchmynion a Rheoliadau sy'n weithredol dan y Deddfau Addysg, offeryn llywodraethu'r ysgol, unrhyw ddogfen ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i'r ysgol ac unrhyw gynllun sy'n cael ei baratoi neu ei gynnal gan Yr Awdurdod Lleol dan Adran 48 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(87).

Rhaid cyflawni'r dyletswyddau yn unol ag unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisïau a wnaethpwyd gan gorff llywodraethu'r ysgol ac y mae'r corff hwnnw yn gyfrifol amdanynt; ac yn yr un modd unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisïau a wnaethpwyd gan Yr Awdurdod Lleol o ran materion nad yw'r corff llywodraethu yn gyfrifol amdanynt.

Gweithredu'r 'Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth'. Dylid hybu nodweddion, gwerthoedd a dealltwriaeth broffesiynol, cynllunio gwaith yn hyderus gan osod targedau i'w monitro a'u hasesu wrth gynnal amgylcheddau dysgu effeithiol, lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel a hyderus.

Mae'r pennaeth yn uniongyrchol atebol i'r Corff Llywodraethol a Phennaeth Addysg Statudol Gwynedd. Disgwylir i ddeilydd y swydd hon adrodd yn ysgrifenedig o leiaf unwaith pob tymor i gorff llywodraethol yr ysgol ar faterion sydd o fewn maes eu cyfrifoldeb strategol a rheolaeth dydd i ddydd yn unol ag arweiniad yr Awdurdod Lleol.

Gellir dirprwyo cyfrifoldebau swydd pennaeth yr ysgol hon i ddirprwy bennaeth mewn modd sy'n cyd-fynd â'u hamodau cyflogaeth, gan ystyried natur a graddau eu cyfrifoldebau rheoli, a chan gynnal cydbwysedd rhesymol i bob aelod o staff rhwng gwaith a wneir yn yr ysgol a gwaith a wneir yn rhywle arall.

## Cyfrifoldebau

Mae'r pennaeth yn gyfrifol am sicrhau:

- rheolaeth effeithiol yr ysgol o ddydd i ddydd;
- y caiff y weledigaeth ar gyfer yr ysgol ei diffinio'n eglur, ei bod yn hysbys, yn cael ei chyd-rannu, yn ddealladwy ac yn cael ei gweithredu gan bob rhan-ddeiliad;
- bod rheolaeth effeithiol ac effeithlon o adnoddau cyllidol a dynol yr ysgol er mwyn gwireddu'r weledigaeth gytunedig yn elfen hanfodol o'r rôl ynghyd a'r gallu i gydweithio gydag eraill;
- gweithdrefnau hunan-arfarnu o ansawdd, annog gweithredu yn seiliedig ar ganlyniadau arfarniad o'r fath a chyflwyno disgrifiad cydlynus, dealladwy a manwl-gywir o berfformiad yr ysgol i lywodraethwyr ac ystod o ran-ddeiliaid;
- hyrwyddo diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar bob lefel a bod dysg disgyblion yn ganolog i gynllunio a rheoli adnoddau, gweithdrefnau monitro, adolygu ac arfarnu;
- datblygu partneriaeth a chydweithio gyda darparwyr eraill yn y sector addysg ac ehangu'r cwricwlwm trwy gyfeirio'n uniongyrchol at gyfoeth ac amrywiaeth y cymunedau hynny sy'n gwasanaethu'r ysgol;
- sefydlu strategaethau, gweithdrefnau effeithiol a deall bod arferion wedi eu
- sefydlu i ddiogelu plant a staff a chydweithredu gydag asiantaethau perthnasol i amddiffyn plant;
- sicrhau fod yr ysgol yn gwarchod gwerthoedd yr iaith Gymraeg ac yn dilyn Polisi Iaith yr Awdurdod.

## Cyfrifoldebau Proffesiynol

Mae disgwyl i'r pennaeth arwain yr Uwch Dim Rheoli (UDRh) a chyflawni'r dyletswyddau proffesiynol fel a ganlyn:

- Dangos arweiniad cadarn er mwyn creu'r amgylchedd sy'n galluogi athrawon fodloni'r 'Safonau Athrawon wrth eu Gwaith' ar ddiwedd unrhyw gyfnod sefydlu a pharhau i'w bodloni gydol eu gyrfa dysgu. Dylid hybu nodweddion, gwerthoedd a dealltwriaeth broffesiynol staff gan sicrhau fod ganddynt y sgiliau angenrheidiol er mwyn cynllunio gwaith yn hyderus gan osod targedau i'w monitro a'u hasesu wrth gynnal amgylcheddau dysgu effeithiol, lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel a hyderus.
- Sicrhau trefniadaeth, strategaeth a datblygiad ysgol gyfan trwy ddarparu arweinyddiaeth strategol gyffredinol a, gydag eraill, arwain, datblygu a chefnogi cyfeiriad strategol, gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r ysgol.
- Ymgynghori a chyfathrebu'n effeithiol gyda'r corff llywodraethu, staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr gan sicrhau atebolrwydd llawn.
- Arwain a rheoli newid a hyrwyddo ymrwymiad rhanddeiliaid gan sicrhau cysondeb gweithredu ar draws yr ysgol.
- Cydweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol,
  gan gynnwys cyrff ac asiantaethau allanol perthnasol er mwy sefydlu a chynnal diwylliant sy'n hyrwyddo rhagoriaeth.
- Gweithio ar draws yr ysgol i sicrhau bod y weledigaeth strategol yn arwain at amcanion cytunedig a chynlluniau gweithredol fydd yn cynnal a hyrwyddo safonau a chynnydd.
- Hyrwyddo cwricwlwm hyblyg a pherthnasol ar draws yr ysgol a'i holl safleoedd sy'n ymateb i'r gwahaniaethau mewn perfformiad gan arwain ar asesu a thracio, a sicrhau y defnyddir data a gwybodaeth i yrru gwelliannau a thracio cynnydd yn effeithiol.
- Cymell staff ac arwain a rheoli'r addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol gyfan gan sicrhau, ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig, bod athro'n cael ei neilltuo yn amserlen yr ysgol i bob dosbarth neu grŵp o ddisgyblion.
- Herio tanberfformiad ar bob lefel a sicrhau ymyrraeth a dilyniant priodol.
- Cydlynu strategaethau ar gyfer anwytho staff newydd, arwain, rheoli a datblygu'r gweithlu gan sicrhau ymglymiad i strategaethau arfarnu, rheoli perfformiad ac unrhyw ofynion datblygiad proffesiynol staff gydag ystyriaeth lawn o'r disgwyliad ynghylch cydbwysedd iach rhwng gwaith ac ymrwymiadau eraill pob aelod o staff.

- Hyrwyddo perthnasoedd gwaith cytûn yn yr ysgol a chynnal perthnasoedd gyda sefydliadau sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o weithlu'r ysgol.
- Hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion a staff a sicrhau trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion a staff.
- Rheoli, trefnu a lleoli adnoddau yn yr ysgol, gan gynnwys staff, mewn modd sy'n addysgiadol effeithiol, yn hyrwyddo nodau a gwerthoedd yr ysgol ac yn cael eu targedu at wella safonau addysgol pob disgybl.
- Mynychu cyfarfodydd a chynnal gweithdrefnau cyllidol sy'n sicrhau bod yr ysgol yn cynnig gwerth am yr arian cyhoeddus mae'n ei wario er mwyn cynnal a gwella ansawdd yr addysg a ddarperir ac er mwyn codi safonau cyflawniad y disgyblion sydd yn ein gofal.
- Adeiladu perthynas waith llwyddiannus gyda'r corff llywodraethol a datblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol.
- Datblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol yn rheolaidd a sicrhau y cedwir yr holl ysgol yn hysbys a chyfoes ynglŷn â rheoliadau a deddfwriaeth.
- Cymryd rhan mewn trefniadau i werthuso ac adolygu eich perfformiad eich hunan a pherfformiad athrawon eraill a staff cymorth a, phan fo hynny'n briodol, eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol, gan gynnwys gofynion ymsefydlu.
- Penderfynu, mewn cysylltiad ag unrhyw gais perthnasol, a yw athro yn yr ysgol yn bodloni'r safonau sy'n berthnasol i'w cyfnod gyrfa gyfredol.
- Sicrhau y cedwir yr ysgol yn hysbys a chyfoes ynglŷn â datblygiadau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, a'u gweithredu a'u datblygu fel bo'r angen.
- Cyfrifoldeb am hunan ddatblygiad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â'cyfrifoldebau a nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.
- Gweithredu o fewn polisïau'r cyngor/ysgol yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data.
- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac annog eraill i weithredu'n gadarnhaol tuag at leihau ôl-troed carbon y Cyngor.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall cyfatebol a rhesymol sy'n cyd-fynd â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i adrodd am bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin.

**Amgylchiadau Arbennig e.e angen i weithio oriau anghymdeithasol, trefniadau gwatih arbennig a.y.y.b.**

- Gweithio tu allan i oriau gwaith arferol yn ôl y gofyn.

**Mae gan y Pennaeth yr hawl i egwyl resymol yn ystod pob diwrnod ysgol, a disgwylir iddynt drefnu bod rhywun addas yn gyfrifol am gyflawni eu swyddogaethau fel pennaeth yn ystod yr egwyl honno.**

**Amlinelliad yn unig o ddyletswyddau'r swydd a ddangosir uchod, a hynny er mwyn rhoi syniad o'r lefel cyfrifoldeb sydd ynghlwm â hi. Nid yw'r swydd ddisgrifiad hon yn fanwl gynhwysfawr, ac fe all dyletswyddau'r swydd newid o bryd i'w gilydd heb newid ei natur sylfaenol na'r lefel cyfrifoldeb.**

I'w lenwi gan ddeilydd y swydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod Deilydd y Swydd | | Dyddiad | |

I'w lenwi gan swyddog y Cyngor

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr | | Dyddiad | |

YSGOL BRYNREFAIL

'Gyda'n gilydd am y copa'

## Y Pum Safon Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

| ADDYSGEG | | |
|---|---|---|
| MIREINIO ADDYSGU | HYRWYDDO DYSGU | DYLANWADU AR DDYSGWYR |
| Rheoli'r amgylchedd dysgu<br>Asesu<br>Gwahaniaethu<br>Cofnodi ac Adrodd<br>Cynnwys Partneriaid mewn dysgu | Pedwar diben i ddysgwyr<br>Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu<br>Profiadau dysgu cyfunol<br>Cyd-destunau bywyd go iawn dilys<br>Dilyniant mewn dysgu<br>Themâu trawsgwricwlaidd | Herio a disgwyliadau<br>Gwrando ar ddysgwyr<br>Dysgwyr yn arwain dysgu<br>Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr<br>Myfyrio ar ddysgu<br>Deilliannau dysgu a lles |

| CYDWEITHREDU | DYSGU PROFFESIYNOL |
|---|---|
| Ceisio cyngor a chymorth<br>Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol<br>Cefnogi a datblygu eraill<br>Galluogi gwelliannau | Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil<br>Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol<br>Dysgu proffesiynol parhaus<br>Sgiliau Cymraeg |

| ARLOESI | ARWEINYDDIAETH |
|---|---|
| Cynnig arbenigedd<br>Datblygu technegau newydd<br>Gwerthuso effaith newid mewn ymarfer | Cymryd cyfrifoldeb personol<br>Arfer cyfrifoldeb corfforaethol<br>Arwain cyd-weithwyr, prosiectau a rhaglenni<br>Cefnogi rolau arweinyddiol ffurfiol |

**Mae disgwyl bydd pob athro yn ymrwymo i'r Safonau Proffesiynol a'u datblygu.**

## Gwerthoedd ac Ymagweddau Cyffredin

- **Iaith a Diwylliant Cymru**
  Mae'r athro yn pwysleisio'n gyson ei bod yn hollbwysig hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru. Caiff dysgwyr
  eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cyfle i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.

- **Hawliau Dysgwyr**
  Bydd anghenion a hawliau dysgwyr yn ganolog ac yn cael blaenoriaeth yn ymagwedd yr athro at ei swydd. Mae gan yr athro ddisgwyliadau uchel ac ymrwymiad i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni.

- **Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol**
  Mae'r athro yn pwysleisio'n gyson bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hollbwysig. Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cyfle i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.

- **Dysgwyr Proffesiynol**
  Mae'r athro yn ddysgwr proffesiynol ac yn ymrwymo i ddatblygu, cydweithredu ac arloesi'n barhaus drwy gydol ei yrfa.

- **Rôl yn y System**
  Mae'r athro yn ymrwymedig i ddysgwyr ym mhob man ac mae'n chwarae rhan ddylanwadol wrth ddatblygu diwylliant addysg cydlynol yng Nghymru.

- **Hawl Broffesiynol**
  Mae gan yr athro hawl broffesiynol i fod yn rhan o ysgol sy'n ystyried ei hun yn sefydliad dysgu. Mae gan yr athro yr ymreolaeth i gyfrannu at y proffesiwn yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang ac mae ganddo'r hawl i ddechrau a chefnogi gwelliannau i'r ysgol er budd dysgwyr.

YSGOL BRYNREFAIL

'Gyda'n gilydd am y copa'

## NODWEDDION PERSON

Hysbyseb Swydd: Pennaeth

| | | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| **CYMHWYSTERAU A HYFFORDDIANT PERTHNASOL** | • Gradd Anrhydedd. | H | |
| | • Statws athro/athrawes wedi cymhwyso. | H | |
| | • CPCP neu brofiad diweddar/cyfredol perthnasol o fod yn Bennaeth. | H | |
| | • Tystiolaeth o ddatblygiadau proffesiynol parhaus perthnasol. | H | |
| | • Gradd Uwch neu gymhwyster cyfwerth. | | D |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **NODWEDDION PERSONOL** | • Bod yn berson brwdfrydig ac ymroddgar | H | |
| | • Bod yn ymrwymedig i welliant parhaus | H | |
| | • Yn gallu ysbrydoli, ysgogi a gosod her i eraill. | H | |
| | • Yn gallu ymgorffori gweledigaeth yr ysgol. | H | |
| | • Gyda sgiliau rhyngbersonol o'r radd flaenaf. | H | |
| | • Ymgorffori gweledigaeth yr ysgol. | H | |
| | • Gyda'r gallu i weithio dan bwysau a chyfarfod â therfynau amser. | H | |
| | • Gyda'r gallu i berthnasu yn dda gyda phlant a gwarchod eu hawliau unigol. | H | |
| | • Yn gallu arddangos deallusrwydd emosiynol a sgiliau perthnasu deinamig. | H | |
| | • Gyda'r gallu i hoelio sylw cynulleidfa amrywiol. | H | |
| | • Yn ymrwymedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. | H | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **PROFIAD PERTHNASOL** | • Tystiolaeth o brofiad cyson a pherthnasol o arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol. | H | |
| | • Profiad o ddatblygu strategaethau ysgol gyfan mewn meysydd allweddol megis addysgu a dysgu a/neu lles a chynhwysiad. | H | |
| | • Profiad o sefydlu ac adeiladu partneriaethau gyda rhieni, y gymuned a gyda phartneriaid eraill. | H | |
| | • Profiad perthnasol fel Pennaeth, Dirprwy neu aelod o Dîm Arwain a Rheoli mewn ysgol. | H | |
| | • Tystiolaeth o weithio'n effeithiol gyda llywodraethwyr. | | D |

# YSGOL BRYNREFAIL

**‘Gyda’n gilydd am y copa’**

| | | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| **SGILIAU A GWYBODAETH ARBENIGOL** | • Meddu ar wybodaeth dda o ddatblygiadau cyfoes mewn addysg yn lleol ac yn genedlaethol. | H | |
| | • Meddu ar ddealltwriaeth eglur o egwyddorion dysgu o ansawdd, addysgu ac asesu yn y sector uwchradd/cynradd. | H | |
| | • Meddu ar ddealltwriaeth gadarn o brosesau gwella’r ysgol. | H | |
| | • Meddu ar wybodaeth gadarn o strategaethau gweithredu sy’n sicrhau safonau uchel o ymddygiad a phresenoldeb. | H | |
| | • Gallu paratoi strategaethau ar gyfer sicrhau cynhwysiad cymdeithasol, amrywiaeth a mynediad. | H | |
| | • Meddu ar wybodaeth dda o rôl y corff llywodraethol ac yn gallu gweithredu strategaethau gwelliant parhaus ac atebolrwydd. | H | |
| | • Meddu ar wybodaeth dda o’r cwricwlwm ehangach tu hwnt i’r ysgol a’r cyfleoedd ar gyfer disgyblion a chymuned yr ysgol. | H | |
| | • Meddu ar agwedd gynhwysol a’r sgiliau i sicrhau llwyddiant i bob disgybl gyrraedd ei lawn botensial. | H | |
| | • Dangos brwdfrydedd personol at y defnydd o’r iaith Gymraeg/Cwricwlwm Cymreig yn yr ysgol. | H | |
| | • Deall gofynion cynllunio ariannol strategol, rheolaeth gyllidebol ac egwyddorion gwerth gorau. | H | |
| | • Meddu ar wybodaeth dda o ddatblygiadau diweddaraf addysg yn genedlaethol. | H | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ANGHENION IEITHYDDOL** | • Gallu dilyn sgwrs neu drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg ar lefel broffesiynol a thrafod pynciau cyffredinol bob dydd yn y maes er mwyn cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn. | H | |
| | • Gallu darparu cyflwyniad wedi’i baratoi o flaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau arno drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg. | H | |
| | • Sgiliau Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig safonol, ffurfiol ac anffurfiol. | H | |
| | • Medru casglu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau, drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg er mwyn cyflawni’r swydd. | H | |
| | • Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig gyda hyder ar ffurf llythyr, adroddiad mwy manwl a thechnoleg ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg. (Mae’n bosibl cael cymorth i wirio’r iaith). | H | |

YSGOL BRYNREFAIL

**'Gyda'n gilydd am y copa'**

## Manylion Cyswllt:

Mr Gwyn Tudur

Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd, Cygnor Gwynedd

(01286 679958)

GwynTudur@gwynedd.llyw.cymru.